

Adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

Hydref 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddMCD@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

Hydref 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2016 i cgyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mick Antoniw AC
Llafur Cymru
Pontypridd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Mandy Jones AC
Annibynnol
Gogledd Cymru



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli



Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad.....	7
Cyflwyno'r Bil	7
Y cefndir.....	8
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol.....	10
Cyffredinol	10
Hawliau dynol.....	12
Ein barn ni.....	12
3. Sylwadau cyffredinol	15
Yr angen am ddeddfwriaeth.....	15
Y berthynas â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016	15
Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.....	17
Asesiadau o effaith	18
Materion eraill.....	19
Ein barn ni.....	20
4. Sylwadau ar bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth	24
Adran 4 ac Atodlen 1 - Taliadau a ganiateir, blaendal sicrwydd a newid ystyr “amrywiad a ganiateir”	24
Ein barn ni.....	26
Adran 7 - Pŵer i ddiwygio'r diffiniad o “taliad a ganiateir”	26
Ein barn ni.....	27
Adran 13 - Hysbysiadau cosb benodedig.....	28
Ein barn ni.....	29
Adran 18 - Rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd asiantiaid gosod eiddo.....	29
Ein barn ni.....	30

Adran 19 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â thenantiaethau sicr.....	31
Ein barn ni.....	31

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 fel cyfle i roi mwy o fanylion i Aelodau'r Cynulliad a'r gynulleidfa ehangach am asesiad Llywodraeth Cymru o gymhwysedd deddfwriaethol y Bil..... Tudalen 14

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr wybodaeth am gymhwysedd deddfwriaethol yn ei Memoranda Esboniadol gynnwys digon o fanylion i sicrhau tryloywder ac i alluogi Biliau i fod yn destun proses graffu effeithiol..... Tudalen 14

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 fel cyfle i roi mwy o fanylion i Aelodau'r Cynulliad a'r gynulleidfa ehangach am borth asesu effaith Llywodraeth Cymru ac, yn enwedig, ei arwyddocâd i'r Bil hwn..... Tudalen 21

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei Memoranda Esboniadol yn cynnwys linc uniongyrchol at yr holl ddeunydd esboniadol sydd ar gael o ran y Bil perthnasol, gan gynnwys y ddogfen porth asesu effaith (os bwriedir i'r dull hwn o asesu effaith barhau)..... Tudalen 22

Argymhelliad 5. Yng ngoleuni adran 10 o'r Bil, dylai'r Gweinidog egluro, yn ystod dadl Cyfnod 1:

- pam mae'r Memorandwm Esboniadol a'r ddogfen Porth Asesu Effaith yn awgrymu nad yw'r Bil yn creunrhyw ofynion newydd sy'n ymwneud â phreifatrwydd neu rannu gwybodaeth; Tudalen
- pam mae anghysondebau rhwng y crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn y Memorandwm Esboniadol a'r rhannau sy'n ymwneud â phreifatrwydd yn nogfen y Porth Asesu Effaith. Tudalen 22

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi asesiad llawn o effaith y Bil ar breifatrwydd cyn dechrau trafodion Cyfnod 3..... Tudalen 22

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ailystyried y defnydd o'r gair "priodol" wrth ymrwymo i ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth a gaiff ei llunio yn sgil y Bil..... Tudalen 23

Argymhelliad 8. Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan Atodlen 1, paragraff 2(4) o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Tudalen 26

Argymhelliad 9. Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan Atodlen 1, paragraff 6 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.Tudalen 26

Argymhelliad 10. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 7 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.Tudalen 28

Argymhelliad 11. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 13 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.Tudalen 29

Argymhelliad 12. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 18 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.Tudalen 31

1. Cyflwyniad

Cylch gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21¹ (ac eithrio Rheol Sefydlog 21.8²), ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

2. Yn ein gwaith o graffu ar Filiau a gyflwynir yn y Cynulliad Cenedlaethol, ein dull yw ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR);
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall yr ydym yn ei ystyried yn berthnasol i ansawdd y ddeddfwriaeth.

Cyflwyno'r Bil

3. Ar 11 Mehefin 2018, cyflwynwyd y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)³ (y Bil), a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio (y Gweinidog).

4. Cafodd y Bil ei gyfeirio gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 22 Mai 2018, a

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Hydref 2018

² Mae swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21.8 yn gyfrifoldeb y [Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol](#)

³ Ar gael ar [wefan](#) y Cynulliad Cenedlaethol.

phennwyd 26 Hydref 2018 ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.⁴

5. Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog yn ein cyfarfod ar 24 Medi 2018.⁵

Y cefndir

6. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud y bydd y Bil yn gwahardd taliadau penodol rhag cael eu gwneud mewn perthynas â threfnu i roi neu adnewyddu contractau meddiannaeth safonol, neu drefnu i barhau â chontractau o'r fath. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch trin blaendaliadau cadw.⁶

7. O dan *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* (Deddf 2016), bydd contractau meddiannaeth safonol yn disodli'r denantiaeth fyrddaliadol sicr bresennol yn y sector rhentu preifat. Mae'r Bil wedi'i ddatblygu i fod yn berthnasol i'r trefniadau newydd hyn.⁷ Mae'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau fel bod darpariaethau'r Bil yn gymwys i denantiaethau sicr rhag ofn na fydd Deddf 2016 wedi dod i rym yn llawn erbyn i'r Bil gael ei basio (mae rhagor o fanylion ym mhennod 4).

8. Bydd cytundebau safonol o dan *Ddeddf 2016* yn pennu cyfrifoldebau'r landlord yn ogystal â deiliad y contract.⁸

9. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y ffioedd a godir ar denantiaid yn y sector rhentu preifat. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Chwefror 2018, a chanfuwyd bod 56 y cant o'r holl ymatebwyr yn cytuno â gwaharddiad llwyr ar ffioedd.⁹

10. Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniad astudiaeth¹⁰ a gomisiynwyd gan Ganolfan Caergrawnt dros Ymchwil Tai a Chynllunio. Canfu'r

⁴ Y Pwyllgor Busnes, [Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Rhentu Cartrefi \(Ffioedd etc.\) \(Cymru\)](#), Mehefin 2018

⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion

⁶ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

⁷ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5

⁸ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.27

⁹ Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad - crynodeb o ymatebion. Ffioedd a godir ar denantiaid yn y sector rhentu preifat](#), Chwefror 2018

¹⁰ [Ymchwil i ffioedd asiantau gosod i denantiaid](#), Awst 2017

ymchwil nifer o faterion yn ymwneud â ffioedd a godir ar denantiaid a'r anawsterau posibl y gall y rhain eu hachosi i denantiaid wrth sicrhau tenantiaeth.¹¹

11. Mae Bil wedi'i gyflwyno yn sgil y Bil Ffioedd Tenantiaid¹² (Lloegr yn unig), a roddwyd gerbron Senedd y DU ym mis Mai 2018, ac eglurhad o'r gyfraith yn yr Alban yn 2012¹³ lle mae'r rhan fwyaf o'r ffioedd sy'n daladwy gan denantiaid wedi'u gwahardd ers peth amser.

12. Ar 11 Mehefin 2018, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad o fwriad y polisi i gyd-fynd â'r Bil.¹⁴

¹¹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.6

¹² [Bil Ffioedd Tenantiaid 2017-19 Bil HL 129](#)

¹³ Deddf Tai Rhent Preifat (Yr Alban) 2011, adran 32

¹⁴ [Y Bil Rhentu Cartrefi \(Ffioedd etc.\) \(Cymru\), Bwriad y polisi mewn cysylltiad ag is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn](#) (Datganiad o Fwriad y Polisi)

2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Cyffredinol

14. Y Bil hwn yw'r ail Fil i gael ei ystyried gan y Pwyllgor o dan y model newydd o gymhwysedd deddfwriaethol sy'n seiliedig ar gadw pwerau (fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* [Deddf 2006]).

15. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) (“y Bil”) yn unol â Rhan 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cymru 2017*.”¹⁵

16. Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol,¹⁶ dywedodd y Llywydd, Elin Jones, AC, fod darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

17. Gofynnwyd i'r Gweinidog am ragor o fanylion am y modd y gwnaeth hi wneud ei phenderfyniad ar gymhwysedd deddfwriaethol. Wrth wneud hynny, tynnwyd sylw at y cyfeiriadau yn y Memorandwm Esboniadol at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o safbwynt bargeinio yn y farchnad rhentu preifat. Rydym yn sylweddoli bod y rhain yn faterion y mae'r Goruchaf Lys¹⁷ yn credu eu bod yn ymwneud â chyfraith diogelu defnyddwyr ac felly â rheoleiddio gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau, sydd yn gymal cadw o dan y setliad datganoli presennol.

18. Meddai'r Gweinidog:

“The core purpose of the Bill is very much within the housing domain... [...] the full consideration that you would expect has been given to this –

¹⁵ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.1

¹⁶ [Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol: Y Bil Rhentu Cartrefi \(Ffioedd etc.\) \(Cymru\)](#), 11 Mehefin 2018

¹⁷ *Imperial Tobacco v Lord Advocate* [2012] UKSC 61

that this is very much a matter that is within the Welsh Government's competence...

[...] it is a housing matter rather than anything that relates to consumer protection, for example.”¹⁸

19. Dywedodd cynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cymru nad yw'r cymal cadw diogelu defnyddwyr wedi'i weithredu.¹⁹

20. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil yn ymwneud â hawliau tenantiaid yn Lloegr yn unig ynddo'i hun yn cyfleu neges gref bod Llywodraeth y DU o'r farn bod y Bil hwn o fewn cymhwysedd datganoledig.²⁰

21. Er nad yw hyn yn fater o gymhwysedd deddfwriaethol, ni chaniateir i unrhyw Fil gael ei basio heb gydsyniad Ei Mawrhydi'r Frenhines neu Ddug Cernyw lle bo angen y cydsyniad hwnnw yn rhinwedd Rheol Sefydlog 26.67, sy'n gweithredu adran 111(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai'r Bil yn rhwymo'r Goron a gallai effeithio ar fuddiannau personol Ei Mawrhydi'r Frenhines a Dug Cernyw. Gofynnwyd i'r Gweinidog a ofynnwyd am y cydsyniad ac a gafwyd ef. Meddai'r Gweinidog wrthym:

“Not yet, and the reason for that is that this is something that we would seek to obtain after we know the amendments that might come forward to this piece of legislation. [...] we need to see the fullness of the Bill in terms of any amendments that might come forward before seeking Crown consent.”²¹

22. Dyma'r ail Fil yr aseswyd ei gymhwysedd deddfwriaethol o dan y setliad datganoli newydd. Yn achos y Bil cyntaf, sef Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys 11 paragraff yn nodi ar ba sail y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd priodol i ddeddfu. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil hwn yn cynnig unrhyw ddadansoddiad manwl - dim ond datgan y mae fod y Bil o fewn cymhwysedd. Holwyd y Gweinidog am y dull gwahanol o weithredu. Dywedodd nad yw'r Bil yn codi unrhyw faterion newydd neu ddadleuol,²² ac ychwanegodd:

¹⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [8] a [10]

¹⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [13]

²⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [15]

²¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [27]

²² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [25]

“I think that the approach we’ve taken is certainly appropriate to the Bill itself. So, there’s no one type of approach that is taken for all legislation...”²³

Hawliau dynol

23. I fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, mae adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darpariaeth mewn Bil gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

24. Holwyd y Gweinidog pa ystyriaeth a roddwyd i faterion hawliau dynol, yn enwedig o ran adran 18 o'r Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a fydd yn caniatáu iddynt roi mwy nag un gosb ar asiant gosod mewn cysylltiad â'r un achos o dorri dyletswydd. Meddai'r Gweinidog wrthym:

“(...) you’ll see in the explanatory memorandum that we have undertaken the human rights assessment, and the assessment overall concludes that the Bill would have a positive impact on human rights because many people with one or more protected characteristics are more likely to be renting in the private sector. So, in a sense the Bill overall will have a positive impact there.”²⁴

25. O safbwynt adran 18, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Bil yn deg ac yn gymesur o ran atal arferion gwael.²⁵

Ein barn ni

26. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Gweinidog a'r wybodaeth a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol.

27. Nodwn hefyd fod y Llywydd wedi datgan y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

28. Rydym yn cydnabod y gallai'r model newydd o gymhwysedd datganoledig, sy'n seiliedig ar gadw pwerau, fod wedi'i gwneud yn anoddach esbonio'r sail y caiff Llywodraeth Cymru ddeddfu oherwydd y ffordd gymhleth y mae'r model wedi'i ddrافتio.

²³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [22]

²⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [18]

²⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [20]

29. Fodd bynnag, pan ofynnwyd am ragor o wybodaeth, canfuwyd fod y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog (a'i swyddogion) yn brin o fanylder. Nid yw'r awgrym bod diben craidd y Bil yn ymwneud â thai yn golygu nad oes modd i Fil gael mwy nag un diben, a cheisiwyd gwneud y pwynt hwn wrth inni holi'r Gweinidog. Nid ymgais i danseilio asesiad Llywodraeth Cymru o gymhwysedd deddfwriaethol oedd yr holi hwnnw. Fel Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gyfrifol am fonitro materion deddfwriaethol sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, rydym yn awyddus i sicrhau bod y materion yn cael eu cyflwyno mewn modd cydlynus a thryloyw.

30. Roeddem yn arbennig o siomedig am lefel y manylion a roddwyd yn yr atebion i'n cwestiynau ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â diogelu defnyddwyr. O ystyried y gyfraith achosion sy'n bodoli sy'n berthnasol i'r pwynt penodol hwn, credwn nad oedd yr atebion a roddodd y Gweinidog a'i swyddogion yn rhoi sicrwydd o'r dadansoddiad manwl y byddai'n rhaid bod wedi'i wneud wrth ystyried y mater hwn.

31. Rydym yn cydnabod tystiolaeth y Gweinidog ynglŷn â'r Bil Hawliau Tenantiaid ar gyfer Lloegr yn unig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, a'i barn bod hwn yn cyfleu neges gref bod Llywodraeth y DU o'r farn bod Bil Llywodraeth Cymru o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae hyn yn amherthnasol yn ogystal a'r cwestiwn a yw'r Bil dan sylw yn ymwneud â'r cymal cadw ar ddiogelu defnyddwyr yn Atodlen 7A o Ddeddf 2006 ai peidio.

32. Yn ein barn ni, nid oes digon o fanylion yn yr esboniad un frawddeg yn y Memorandwm Esboniadol am sut y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil. Wrth fynegi'r farn hon, tynnwn sylw at ein sylwadau yn ein hadroddiad ar Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru).²⁶ Yn yr adroddiad hwnnw, fe wnaethom bwysleisio bod asesiad Llywodraeth Cymru o'r modd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn meddu ar y cymhwysedd deddfwriaethol i fwrw ymlaen â'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn cynnwys 11 paragraff yn y Memorandwm Esboniadol, ac awgrymwyd gennym fod a wnelo hynny â chymhlethdod y model o gymhwysedd deddfwriaethol sy'n seiliedig ar gadw pwerau, a gyflwynwyd yn *Neddf Cymru 2017*. Er nad ydym yn awgrymu y dylid gweithredu yn yr un ffordd yn achos pob Bil, mae'r gwahaniaeth amlwg rhwng y dulliau a ddefnyddiwyd gyda'r ddau Fil hyn yn haeddu esboniad.

²⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Adroddiad ar y Bil Cyllido Gofal Plant \(Cymru\)](#), Mehefin 2018

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 fel cyfle i roi mwy o fanylion i Aelodau'r Cynulliad a'r gynulleidfa ehangach am asesiad Llywodraeth Cymru o gymhwysedd deddfwriaethol y Bil.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr wybodaeth am gymhwysedd deddfwriaethol yn ei Memoranda Esboniadol gynnwys digon o fanylion i sicrhau tryloywder ac i alluogi Biliau i fod yn destun proses graffu effeithiol.

33. Nodwn y byddai'r Bil yn rhwymo'r Goron ac y gallai effeithio ar fuddiannau personol Ei Mawrhydi'r Frenhines a Dug Cernyw. Felly, mae angen cydsyniad y Frenhines cyn y caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nodwn ymhellach nad yw'r Gweinidog wedi gofyn am gydsyniad hyd yma oherwydd ei bod yn aros am Fil cyflawn yn dilyn y camau diwygio.

34. Er ein bod o'r farn bod rhinwedd i'r dull hwn, credwn hefyd y gallai fod manteision i ymgysylltu'n gynharach â'r Goron ar faterion cydsynio fel ffordd o liniaru'r risgiau o oedi ar ddiwedd taith Bil drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhai ffyrdd posibl o ymgysylltu'n gynharach yw hysbysu'r Goron ymlaen llaw o'r dyddiad y disgwylir gofyn am gydsyniad, neu wneud cais am benderfyniad dros dro ar gydsyniad, yn ddarostyngedig i unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil yn ystod y camau diwygio. Mae'r sylwadau hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau nad yw'r camau hyn yn digwydd eisoes, a bod y dull hwn yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru a'r Goron. Os gwnaed y rhagdybiaeth gyntaf mewn camgymeriad a bod math ar ymgysylltiad cynnar yn digwydd, credwn y dylid tynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol at hynny.

35. Rydym wedi ystyried ymatebion y Gweinidog i'r cwestiynau a godwyd gennym ynglŷn ag effaith y Bil ar hawliau dynol ac rydym o'r farn bod yr ymagwedd a fabwysiadwyd yn rhesymol. Fodd bynnag, wrth ddod i'r farn hon, tynnwn sylw at y pŵer yn adran 18 o'r Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod mwy nag un gosb ar asiant gosod mewn perthynas â'r un achos o dorri dyletswydd. Credwn y bydd angen rhoi sylw arbennig i'r rheoliadau hyn os cânt eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Sylwadau cyffredinol

Mae'r Bil yn cynnwys naw pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

Yr angen am ddeddfwriaeth

36. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y rhoddwyd ystyriaeth i ddull heblaw deddfwriaeth. Gallai hyn fod wedi cynnwys dull mwy llym o orfodi'r ddeddfwriaeth bresennol ar hawliau defnyddwyr a chyflwyno cod ffioedd gwirfoddol a fyddai'n safoni ac yn capio'r taliadau.

37. Yn ei thystiolaeth i ni ar 24 Medi, dywedodd y Gweinidog:

"We have considered all options in terms of achieving the goal of ensuring that tenants do not pay fees. A voluntary approach simply wouldn't work, because we've tried, for example, with the landlord accreditation system in the past to encourage a voluntary approach; only 2,000 of what we understood to be around 70,000 landlords engaged with that at the time."²⁷

38. Yn ôl Rheolwr y Bil yn Llywodraeth Cymru:

"The consensus that emerged from the views from stakeholders was that the arguments in favour of legislation were more compelling for the sector and more appropriate and, based on that, the conclusion was that legislation was appropriate."²⁸

Y berthynas â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

39. Mae'r Bil yn dilyn ac yn rhyngweithio â *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Gyda rhywfaint o eithriadau, bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn disodli'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol gyda dim ond dau fath o gontract meddiannaeth: contractau diogel a chontractau safonol. Bydd y Bil yn creu troseddau mewn cysylltiad â chontractau meddiannaeth safonol. Fodd bynnag, nid yw'r rhannau perthnasol o Ddeddf 2016, a fydd yn sefydlu contractau meddiannaeth safonol, wedi dod i rym hyd yma.

²⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [29]

²⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [34]

40. Gofynnwyd i'r Gweinidog pryd y byddai Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn cychwyn, a pham fod hynny wedi cymryd cymaint o amser. Meddai'r Gweinidog wrthym:

“Implementing the renting homes Act 2016 [...] requires a substantial amount of work in terms of developing the regulations that sit underneath that. That said, work has progressed very well and things are very much developing there, but, again, when we introduced the regulations there was a commitment to consult on them, so obviously that does take some time.

One of the key issues really, though, is that it does require changes to the civil procedure rules and the court information technology systems, and, obviously, these are non-devolved matters. And we are working closely with the Ministry of Justice and Her Majesty's Courts and Tribunals Service to effect these changes, but, unfortunately, to a large degree, the timing of that is outside of our hands...”²⁹

41. Er bod cytundebau meddiannaeth safonol wedi'u diffinio yn Neddf 2016, er eglurder gofynnwyd i'r Gweinidog a ddylai'r Bil hwn gynnwys diffiniad llawn neu o leiaf ddatgan bod y darpariaethau yn y Bil hwn yn ymwneud ag eiddo sy'n gyfan gwbl yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi'n meddwl bod angen pennu'r manylion hynny ar wyneb y Bil. Ychwanegodd:

“It follows on from the renting homes Act where this issue was fully described, and I think that there is clarity there.”³⁰

42. Dyma ail Fil Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â rhentu cartrefi. Mae hefyd yn rhyngweithio â *Deddf Tai (Cymru) 2014*. Holwyd y Gweinidog a yw hyn yn rhan o gynllun i greu corff o gyfraith y gellid ei briodoli i bwnc priodol cyn y posibilrwydd y bydd y gyfraith yn cael ei chydgrynhoi neu ei chodeiddio'n ffurfiol? Meddai'r Gweinidog wrthym:

“(...) the Bill is titled as it is to show that it is part of a suite of legislation, so it maintains that link to the previous renting homes legislation. But, yes, the Counsel General is very keen on a programme of work to improve the accessibility of law, and I think that it's no more important, really, in any area than housing...

²⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [46] a [47]

³⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [52]

So, yes, this is part of a wider approach, but I do think that there is important work that has to be done in due course in terms of consolidation and the codification of Welsh law, particularly, I think, in the area of housing law.”³¹

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth

43. Mae'r Bil yn cynnwys 25 o adrannau, dwy Atodlen a naw pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Crynhoir y pwerau dirprwyedig ym Mhennod 5 y Memorandwm Esboniadol. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu Datganiad o Fwriad y Polisi.

44. Ac eithrio'r pŵer i wneud gorchymyn yn adran 24 o'r Bil, bydd y pwerau dirprwyedig a ddarperir yn y Bil ar ffurf rheoliadau.

45. Gofynnwyd i'r Gweinidog a yw'r Bil yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng y darpariaethau ar ei wyneb a'r hyn a adewir i reoliadau? Meddai'r Gweinidog:

“I do think that we have that right balance between what's on the face of the Bill and what's to be set out in regulations, and that's because we need to futureproof the Bill, really, and to allow for flexibility in future.”³²

46. Gofynnwyd hefyd i'r Gweinidog pryd y rhagwelir y bydd rheoliadau canlyniadol yn cael eu gosod, ac a fydd unrhyw un o'r rheoliadau hynny ar gael ar ffurf drafft cyn i Gyfnod 1 y Bil ddod i ben? Ar y pwynt hwn, dywedodd y Gweinidog wrthym na fyddai hi mewn sefyllfa i ddarparu copïau drafft o'r rheoliadau tra bod y Bil yn destun proses graffu, yn rhannol oherwydd ei bod wedi ymrwymo i ymgynghori'n eang wrth i'r rheoliadau hynny gael eu datblygu. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

“However, I do think that we've set out the policy intent quite clearly of all of these things within the documentation that we've already provided.”³³

³¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [54] a [55]

³² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [59]

³³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [61]

Asesiadau o effaith

47. Codwyd materion gyda'r Gweinidog ynglŷn â'r asesiadau o effaith a gynhwysir yn y Memorandwm Esboniadol. Mae pennod 9 o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys crynodeb o'r asesiadau effaith y mae eu hangen wrth gyflwyno deddfwriaeth newydd.

48. Mae Rheol Sefydlog 26.6(xii) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder. Mae Adrannau 2, 3, 4, 9, 11, 12 ac 20 o'r Bil yn creu troseddau sy'n ymwneud â gwahardd ffioedd a'r methiant i ddarparu gwybodaeth, neu ddarparu gwybodaeth anwir i swyddog tai awdurdodedig awdurdod lleol. Bydd troseddau o'r fath yn cael eu herlyn yn y Llysoedd Troseddol. Mae Adran 17 o'r Bil hefyd yn creu rhwymedi sifil i ddeiliaid contractau adennill taliadau gwaharddedig yn y llysoedd sifil.

49. Tynnwyd sylw'r Gweinidog at y ffaith bod Memorandwm Esboniadol y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn cynnwys linc defnyddiol i asesiad o effaith y Bil ar y system gyfiawnder,³⁴ a gofynnwyd iddi pam na wnaed rhywbeth tebyg yn achos y Bil hwn. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod hi wedi tybio y byddai Aelodau'r Cynulliad a phartion perthnasol yn gyfarwydd â'r porth asesu effaith, ond ei bod yn ddigon bodlon ychwanegu'r linc at y Memorandwm Esboniadol pe byddai o gymorth i'r Pwyllgor.³⁵

50. Ymddengys mai rhestr wirio a ddefnyddir i baratoi Biliau yw'r Porth Asesu Effaith y cyfeirir ato gan y Gweinidog. Mae dogfen Porth Asesu Effaith sy'n ymwneud â'r Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru), sydd wedi'i llofnodi gan swyddog Llywodraeth Cymru, i'w chael ar wefan Llywodraeth Cymru.³⁶ Cyn belled ag y gwyddom, ni dynnwyd sylw Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol at y ddogfen pan gyflwynwyd y Bil. Ym mharagraff 3.3.3 o'r ddogfen Porth Asesu Effaith dywedir fel a ganlyn: "Caiff asesiad o'r effaith ar gyfiawnder ei gynnwys fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil."³⁷ Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys crynodeb byr o'r asesiad o'r effaith ar gyfiawnder; fodd bynnag, mae asesiad manylach yn Atodiad 5 i'r ddogfen Porth Asesu Effaith. Ni chyfeirir at hyn ym mharagraff 3.3.3 o'r ddogfen honno.

³⁴ [Bil Cyllido Gofal Plant \(Cymru\), Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder](#). Chwefror 2018

³⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [94]

³⁶ [Porth Asesu Effaith Llywodraeth Cymru, Y Bil Rhentu Cartrefi \(Ffioedd etc.\) \(Cymru\)](#)

³⁷ [Porth Asesu Effaith Llywodraeth Cymru, Y Bil Rhentu Cartrefi \(Ffioedd etc.\) \(Cymru\), paragraff 3.3.3](#)

51. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd. Mae'n dweud fel a ganlyn:

“Nid yw'r Bil yn creu unrhyw ofynion newydd mewn perthynas â phreifatrwydd na rhannu gwybodaeth. Yn ôl yr asesiad effaith a gynhaliwyd, ni fydd y ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith.”³⁸

52. Fodd bynnag, mae adran 10 o'r Bil yn caniatáu i swyddog awdurdodedig awdurdod tai lleol ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu dogfennau a rhannu gwybodaeth. Gofynnwyd i'r Gweinidog ai camgymeriad posibl oedd hyn. Meddai'r Gweinidog wrthym:

“This is an area where we've considered that, actually, thing might be more complicated, and we'll be revisiting this area when we redraft the explanatory memorandum.”³⁹

53. Mae paragraff 3.1.6.1 o'r ddogfen Porth Asesu Effaith yn gofyn y cwestiwn “Fel rhan o'r cynnig, a fydd angen prosesu gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod unigolion?”; “Na” yw'r ateb a roddir.⁴⁰

Materion eraill

Bil Drafft

54. Mae Bil tebyg (y Bil Ffioedd Tenantiaid) wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, cyn cyflwyno'r Bil yn Lloegr, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar Fil drafft. Gofynnwyd i'r Gweinidog pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau tebyg, gan fod hynny'n cael ei ystyried yn arfer deddfwriaethol da. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Bil yn debyg iawn i'r ddogfen ymgynghori ac nad oedd ynddo ddim byd annisgwyl. Dywedodd hefyd y bu ymgysylltiad helaeth â'r sector.⁴¹

“Priodol”

55. Codwyd mater penodol gyda'r Gweinidog ynglŷn â'r defnydd o'r gair “priodol” yn y Memorandwm Esboniadol a'r Datganiad o Fwriad y Polisi. Mae'r gair “priodol”, fel y mae'n ymwneud â bwriad Gweinidogion Cymru i ymgynghori, wedi dod yn gyffredin ym Memoranda Esboniadol Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r

³⁸ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.15

³⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [98]

⁴⁰ [Porth Asesu Effaith Llywodraeth Cymru. Y Bil Rhentu Cartrefi \(Ffioedd etc.\) \(Cymru\), paragraff 3.1.6.1. Gweler hefyd dudalen 17.](#)

⁴¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [43]

Gweinidog beth yw ystyr “priodol” yng nghyd-destun y Bil hwn. Meddai'r Gweinidog:

“We'll consult on either the point of policy or on draft regulations in all cases. (...) this phrase is meant to mean that we'll choose the most appropriate way in which to undertake that consultation. So, for example, it would be good practice, I think, to consult very widely, as I've said, on the issue of any cap on security deposits, but then, at the same time, it might be more appropriate to undertake a more focused engagement with relevant stakeholders on areas that (...) might be of a more technical nature. But, either way, we would seek to undertake the engagement fully in line with what is established as good practice.”⁴²

56. Ychwanegodd y Gweinidog y byddai'n ailedrych ar y defnydd o'r gair i geisio dod o hyd i ffordd ymlaen a fyddai'n caniatáu i'r Llywodraeth gymryd camau ymgynghori priodol a chymesur, ac y byddai'n fodlon gwneud yr adolygiad hwnnw wrth ailddrafftio'r Memorandwm Esboniadol fel ffordd o'i gwneud yn gliriach beth yw'r bwriad.⁴³

Ein barn ni

57. Rydym yn cydnabod y wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol a thystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â'r angen am Fil yn hytrach na deddfu.

58. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog am ryngweithiad y Bil â *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* ac rydym yn croesawu'r camau cychwynnol hyn i greu corff o gyfraith Cymru sy'n hawdd ei adnabod ac sy'n benodol i bwnc. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol cyn cynlluniau mwy cynhwysfawr Llywodraeth Cymru ynglŷn â chydgrynhoi a chodio, a dylai gynorthwyo gyda'r nod o wneud y gyfraith yng Nghymru yn fwy hygyrch.

59. Rydym yn fodlon â'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth Fodd bynnag, nid yw “diogelu at y dyfodol” a “hyblygrwydd” yn dermau yr ydym yn awyddus iddynt gael eu defnyddio'n gyson gan Weinidogion Cymru i gyfiawnhau cynnwys pŵer i wneud rheoliadau mewn Bil. Ategwn y casgliad a ddaeth y pwyllgor a'n rhagflaenodd iddo yn y Pedwerydd Cynulliad⁴⁴ – mae'r angen i ddiogelu Biliau at y dyfodol a

⁴² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [83]

⁴³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [87] a [91]

⁴⁴ Adroddiad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad, *Deddfu yng Nghymru* (Hydref 2015)

chaniatáu ar gyfer hyblygrwydd yn dod yn ymadroddion stoc a ddefnyddir gan Weinidogion i gyfiawnhau'r hyn sydd, yn ei barn ni, yn orddibyniaeth ar bwerau i wneud rheoliadau mewn Biliau. Byddwn yn parhau i fonitro'r modd y defnyddir pwerau i wneud rheoliadau ym mhob Bil a gyflwynir i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol.

60. Rydym hefyd yn pryderu am ddull Llywodraeth Cymru o benderfynu ar y weithdrefn graffu a ddynodir i bŵer gwneud rheoliadau. Ymddengys fod y penderfyniad yn seiliedig ar yr hyn y mae'r Gweinidog Cymru perthnasol yn ei ystyried yn dechnegol ei natur. Barn oddrychol yw "technegol", tra dylai asesiad o'r weithdrefn graffu briodol fod yn seiliedig ar egwyddorion cadarn. Rydym yn rhoi sylwadau pellach ar hyn yn y bennod nesaf mewn perthynas â'r pwerau penodol i wneud rheoliadau yn y Bil hwn.

61. Mae gennym bryderon sylweddol am gynnwys, dull gweithredu, a hygyrchedd yr asesiadau effaith sy'n cyd-fynd â'r Bil.

62. Rydym yn siomedig â datganiad y Gweinidog fod hi a'i thîm wedi gwneud rhagdybiaeth y byddai Aelodau'r Cynulliad a phartïon eraill yn gyfarwydd â lleoliad y porth asesu effaith. Gan fod y Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar bob Bil a osodir gerbron y Cynulliad, nid ydym yn gyfarwydd â'r porth hwn. Erbyn hyn, rydym yn wedi cael ar ddeall, yn groes i'r hyn a awgrymwyd yn ystod y sesiwn graffu, mai'r Bil hwn yw un o'r rhai cyntaf gan Lywodraeth Cymru i fod ag asesiadau effaith sy'n defnyddio'r porth hwn. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn credu ei bod yn rhesymol tybio nac awgrymu y byddai'r partïon perthnasol wedi bod yn gyfarwydd ag ef.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 fel cyfle i roi mwy o fanylion i Aelodau'r Cynulliad a'r gynulleidfa ehangach am borth asesu effaith Llywodraeth Cymru ac, yn enwedig, ei arwyddocâd i'r Bil hwn.

63. Credwn y dylid annog a hyrwyddo mwy o hygyrchedd i gyfreithiau Cymru a deunydd esboniadol cysylltiedig (gan gynnwys asesiadau o effaith). Rydym yn pryderu nad yw'r ddogfen Porth Asesu Effaith ar gyfer y Bil yn ddigon clir a chydlynus, ac y gellid ei hystyried yn gamarweiniol. Nid ydym yn credu mai bwriad Llywodraeth Cymru yw bod gofynion cymharol newydd sydd wedi'u hanelu at hyrwyddo hygyrchedd, fel yr asesiad o'r effaith ar gyfiawnder, yn troi'n ymarferion ticio blychau ond credwn fod perygl y gallai hynny ddigwydd. Mae ein harchwiliad o'r materion hyn yn ffordd o sicrhau nad yw'r nod cyffredinol o wneud cyfraith Cymru yn hygyrch a thryloyw yn syrthio ar fin y ffordd.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei Memoranda Esboniadol yn cynnwys linc uniongyrchol at yr holl ddeunydd esboniadol sydd ar gael o ran y Bil perthnasol, gan gynnwys y ddogfen porth asesu effaith (os bwriedir i'r dull hwn o asesu effaith barhau).

64. Yn olaf, o ran yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, rydym yn cydnabod ymateb y Gweinidog ond credwn fod angen eglurhad ar y mater hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd ein bod yn pryderu bod y wybodaeth o fewn y ddogfen Porth Asesu Effaith yn awgrymu nad oedd yr asesiad o'r effaith ar breifatrwydd yn gadarn.

Argymhelliad 5. Yng ngoleuni adran 10 o'r Bil, dylai'r Gweinidog egluro, yn ystod dadl Cyfnod 1:

- pam mae'r Memorandwm Esboniadol a'r ddogfen Porth Asesu Effaith yn awgrymu nad yw'r Bil yn creunrhyw ofynion newydd sy'n ymwneud â phreifatrwydd neu rannu gwybodaeth;
- pam mae anghysondebau rhwng y crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn y Memorandwm Esboniadol a'r rhannau sy'n ymwneud â phreifatrwydd yn nogfen y Porth Asesu Effaith.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi asesiad llawn o effaith y Bil ar breifatrwydd cyn dechrau trafodion Cyfnod 3.

65. Yn ogystal ag amlygu'r pwysigrwydd o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, rydym hefyd wedi cymryd diddordeb mewn hyrwyddo'r arferion gorau o ran deddfu yng Nghymru. Ein barn ni yw y dylai Llywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth, anelu at baratoi ac ymgynghori ar Filiau drafft, cyn eu cyflwyno'n ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. O ran y Bil hwn, nodwn fod y Gweinidog wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y materion polisi ehangach cyn ei gyflwyno. Fodd bynnag, credwn fod ymgynghori ar Filiau drafft yn arfer gwell ac yn fwy effeithiol o ran tynnu sylw at y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig.

66. O ran y gair "priodol", pan gaiff ei ddefnyddio yng nghyd-destun cynlluniau Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth a gaiff ei llunio yn sgil y Bil, ni ddylid, yn ein barn ni, ei ddefnyddio'n ofer. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog, yn ei thystiolaeth i ni, wedi rhoi ymrwymiad i ymgynghori ar naill ai'r pwynt o bolisi neu ar reoliadau drafft. Fodd bynnag, o'r cychwyn cyntaf, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir am ei chynlluniau ar gyfer ymgynghori. Tynnwn sylw at y gair hwn oherwydd bod ei ystyr o fewn y Memorandwm Esboniadol a'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn aneglur.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ailystyried y defnydd o'r gair "priodol" wrth ymrwymo i ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth a gaiff ei llunio yn sgil y Bil.

4. Sylwadau ar bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth

Wrth ystyried y Bil, gwnaethom ganolbwyntio ar yr adrannau penodol o'r Bil sy'n darparu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys dwy adran (adran 7 ac adran 13) sy'n darparu pwerau Harri VIII.⁴⁵

67. Roedd ein sesiwn graffu yn canolbwyntio ar y pwerau hynny a oedd o'r diddordeb mwyaf i ni ac mae ein hystyriaeth isod yn cyfeirio at faterion penodol yr ydym am dynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol atynt.

Adran 4 ac Atodlen 1 - Taliadau a ganiateir, blaendal sicrwydd a newid ystyr "amrywiad a ganiateir"

68. Mae Adran 4 ac Atodlen 1 yn diffinio taliadau gwaharddedig a thaliadau a ganiateir. Mae unrhyw daliad y gofynnir amdano fel amod o roi, adnewyddu neu barhau â contract meddiannaeth safonol yn daliad gwaharddedig oni bai ei fod yn daliad gan landlord i asiant gosod mewn cysylltiad â "gwaith asiantaeth gosod eiddo" neu "waith rheoli eiddo", neu'n fath o daliad a ganiateir fel y'i nodir yn Atodlen 1.

69. Mae blaendalidau sicrwydd yn daliadau a ganiateir. Rhaid ymdrin â hwy yn unol â chynllun blaendaliadau awdurdodedig. Mae paragraff 2(4) o Atodlen 1 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod terfyn ar unrhyw flaendal sicrwydd.

70. Ystyr "amrywiad a ganiateir" i swm y rhent sy'n daladwy (fel taliad a ganiateir) yw un a wneir trwy gytundeb rhwng landlord a deiliad y contract. Mae paragraff 6 o Atodlen 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio rheoliadau i newid ystyr "amrywiad a ganiateir".

71. Bydd y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan Atodlen 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn a fydd, os oes angen, yn

⁴⁵ Pŵer Harri VIII yw darpariaeth o fewn Bil sy'n ei gwneud yn bosibl i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol neu ei diddymu gan is-ddeddfwriaeth (e.e. offeryn statudol), a all fod yn destun cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol neu beidio.

gosod cap (pŵer yn Atodlen 1, paragraff 2(4)) ac a fydd yn gwneud diwygiadau technegol (pŵer yn Atodlen 1, paragraff 6).⁴⁶

72. O gofio y gallai'r pŵer yn Atodlen 1, paragraff 2(4) effeithio'n uniongyrchol ar allu ariannol person i rentu eiddo, gofynnwyd i'r Gweinidog pam nad yw'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Meddai'r Gweinidog wrthym:

“(…) this is an area where we've committed to consulting widely before using or making that regulation, and again, it's another area where I'm keen to hear the committee's views as to whether they believe that we've chosen the right procedure for it.”⁴⁷

73. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn datgan y gall fod angen y pŵer gwneud rheoliadau yn Atodlen 1 paragraff 6 os bydd newidiadau yn y dyfodol i bolisi Llywodraeth Cymru. Os felly, gofynnwyd i'r Gweinidog pam nad yw'r pŵer gwneud rheoliadau hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Meddai'r Gweinidog:

“This is one of the areas I referred to earlier in terms of our attempts to futureproof the legislation—to avoid any additional terms that might be set by landlords or agents in order to try and recoup some of the money that they will not be receiving as a result of the legislation.”⁴⁸

74. Dywedodd arweinydd polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil eu bod yn hyderus bod y Bil fel y'i drafftwyd yn cwmpasu pob digwyddiad, ond, pe bai angen gwneud newidiadau, byddai'r newidiadau hynny'n dechnegol ac felly'n briodol ar gyfer y weithdrefn negyddol.⁴⁹ Dywedodd cynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cymru fod y pŵer yn caniatáu'r hyblygrwydd hwnnw rhag ofn bod yna unrhyw fylchau yn dod i'r amlwg wrth i'r Bil gael ei weithredu.⁵⁰ Ar y pwynt hwn, dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r mater penodol hwn.⁵¹

⁴⁶ Memorandwm Esboniadol, Tabl 5.1

⁴⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [72]

⁴⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [74]

⁴⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [75]

⁵⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [76]

⁵¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [78]

Ein barn ni

75. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Gweinidog ar y pwerau i wneud rheoliadau yn Atodlen 1 i'r Bil.

76. Rydym yn nodi bod rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan Atodlen 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

77. Rydym yn anghytuno â'r ddadl a gyflwynwyd gan y Gweinidog a'i swyddogion y dylai pwerau i wneud rheoliadau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gael eu caniatáu er mwyn gwneud newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Rydym hefyd yn anghytuno bod newid ystyr "amrywiad a ganiateir" yn rhywbeth y gellir ei gategoreiddio fel "technegol". Ar y pwynt hwn, ailadroddwn gasgliad y daethom iddo yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Barn oddrychol yw "technegol", fel y dangosir gan y gwahaniaeth barn rhwng y Pwyllgor hwn a'r Gweinidog ar y mater. Dylai asesiad o'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer cyflwyno rheoliadau fod yn seiliedig ar egwyddorion cadarn.

78. Rydym yn cydnabod ei bod yn briodol, mewn llawer o achosion, i allu gwneud newidiadau i gyfreithiau drwy bŵer dirprwyedig. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar Weinidog Cymru sy'n arfer y pŵer hwnnw i wneud hynny'n gyfrifol. Rydym yn ailadrodd pwynt a wnaed yn ystod y sesiwn graffu gyda'r Gweinidog - mae yna ffin lle mae hyblygrwydd yn ymyrryd ag arfer pwerau sylweddol, y mae'n rhaid iddynt fod yn destun lefel uwch o graffu.

Argymhelliad 8. Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan Atodlen 1, paragraff 2(4) o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 9. Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan Atodlen 1, paragraff 6 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran 7 - Pŵer i ddiwygio'r diffiniad o "taliad a ganiateir"

79. Mae Adran 7 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o daliadau a ganiateir. Mae'r pŵer yn bŵer Harri VIII gan y bydd yn ei gwneud yn bosibl diwygio Atodlen 1 drwy is-ddeddfwriaeth.

80. Yr amcan y tu ôl i'r pŵer i wneud rheoliadau yw galluogi rheoliadau i adlewyrchu unrhyw newidiadau annisgwyl yn ymddygiad ac arferion

landlordiaid.⁵² Ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddileu taliadau rhent o'r categorïau o daliadau a ganiateir.⁵³

81. Bydd y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 7 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn gan fod y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

82. O gofio bod y pŵer yn adran 7 yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid yr hyn y caiff landlord neu asiant gosod ei wneud, fe ofynnwn ni i'r Gweinidog a oedd wedi ystyried cymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i'r pŵer i wneud rheoliadau. Ymateb y Gweinidog oedd gofyn beth fyddai proses uwchgadarnhaol yn ei hychwanegu at y broses na fyddai'r broses gadarnhaol arferol yn ei wneud? Ychwanegodd:

“(…) this is something that I'd be more than interested in the committee's thoughts on when you provide your report. Again, these are areas where we have committed to full engagement with stakeholders before any of this comes into force...”⁵⁴

Ein barn ni

83. Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog ar y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 7 o'r Bil.

84. Ein harfer cyffredin yw ceisio defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth a fyddai'n newid deddfwriaeth sylfaenol. Am y rheswm hwnnw, croesawn y ffaith bod y Gweinidog, o'r dechrau'n deg, wedi drafftio'r Bil er mwyn i'r weithdrefn gadarnhaol allu cael ei defnyddio ar gyfer y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 7.

85. Fodd bynnag, credwn y byddai'r rheoliadau hyn, a fyddai'n galluogi i'r rhestr o daliadau a ganiateir gael eu newid, yn elwa o'r gwaith craffu ychwanegol y byddai gweithdrefn uwchgadarnhaol yn ei chaniatáu. O gofio bod y Gweinidog wedi ymrwymo i ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid, nid ydym yn credu y byddai gosod yr ymrwymiad hwn mewn statud drwy weithdrefn uwchgadarnhaol yn feichus. Mae dibyniaeth y Gweinidog (ac yn wir dibyniaeth ehangach Llywodraeth Cymru) ar yr agwedd “ymgyngori lle bernir bod hynny'n briodol” yn dylanwadu ar y farn

⁵² Nodiadau Esboniadol, paragraff 34 (Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 91)

⁵³ Memorandwm Esboniadol, Tabl 5.1

⁵⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [63]

hon hefyd. Nid yw'r dull hwn o weithredu yn dryloyw, ac fe all na fydd yn ennyn hyder y rhai yr effeithir arnynt gan y newidiadau y gellir eu gwneud trwy reoliadau.

86. Gallai'r pŵer i ddiwygio'r diffiniad o daliad a ganiateir newid effaith nod cyffredinol y Bil fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd neu, drwy fyrhau'r rhestr o daliadau a ganiateir, ehangu nifer y troseddau a gaiff eu creu gan y Bil. Dylai rhanddeiliaid allweddol a phwyllgorau perthnasol y Cynulliad gael y cyfle i roi sylwadau ar reoliadau drafft a fyddai'n newid elfen sylweddol o'r ddeddfwriaeth. Credwn y dylai'r rheoliadau gael eu gwneud trwy weithdrefn uwchgadarnhaol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gosod y rheoliadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r cyfnod ymgynghori hefyd yn rhoi amser i bwyllgorau'r Cynulliad ystyried y rheoliadau ar ffurf ddrafft.

Argymhelliad 10. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 7 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

Adran 13 – Hysbysiadau cosb benodedig

87. Mae Adran 13 yn galluogi swyddog awdurdodedig yr awdurdod tai lleol i roi hysbysiad cosb benodedig i unigolyn os yw'r swyddog hwnnw'n credu bod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd o dan adran 2 neu 3 o'r Bil. Swm y gosb benodedig yw £500. Mae Adran 13(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau i ddiwygio lefel y gosb benodedig. Pŵer Harri VIII yw hwn gan y bydd yn ei gwneud yn bosibl i ddiwygio adran 13 drwy is-ddeddfwriaeth.

88. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn dweud y bydd Gweinidogion Cymru am weithredu'n gyflym i ddiwygio swm y gosb pe bai tystiolaeth yn dod i law fod y gosb yn rhy isel neu'n rhy uchel.⁵⁵

89. Bydd y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 13 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn gan fod y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

90. O gofio bod y pŵer yn adran 13 yn gallu newid lefel y gosb benodedig mewn perthynas â throsedd, fe ofynnnon ni eto i'r Gweinidog a oedd wedi ystyried cymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i'r pŵer i wneud rheoliadau.

91. Mae ateb y Gweinidog i'n cwestiwn ar y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 7 hefyd yn berthnasol i'r pŵer yn adran 13; sef ei bod hi'n ansicr beth fyddai proses

⁵⁵ [Datganiad o Fwriad y Polisi](#)

uwchgadarnhaol yn ei ychwanegu, ac mae wedi ymrwmo i ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid cyn i'r pwerau ddod i rym.⁵⁶

Ein barn ni

92. Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog ar y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 13 o'r Bil.

93. Tynnwn sylw at y casgliadau a wnaed mewn perthynas ag adran 7 o'r Bil.

94. Mae Adran 13(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gynyddu lefel y gosb benodedig, o £500 i uchafswm anhysbys. Bydd y Bil Ffioedd Tenantiaid a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn galluogi awdurdod gorfodi yn Lloegr i osod ffi o hyd at £30,000.⁵⁷ Er ein bod yn cydnabod nad yw'r Gweinidog wedi rhoi unrhyw arwydd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pennu cosbau ar y lefel hon, credwn y dylai'r potensial ar gyfer cynnydd sylweddol yn swm y gosb benodedig fod yn destun craffu ychwanegol.

95. Fel yn achos adran 7, credwn y dylid gwneud rheoliadau adran 13 trwy weithdrefn uwchgadarnhaol sy'n sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid allweddol cyn i swm y gosb benodedig gael ei newid.

Argymhelliad 11. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 13 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

Adran 18 – Rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd asiantiaid gosod eiddo

96. Mae adran 18 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau i ddiwygio *Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015* (Deddf 2015) i'w gwneud yn ofynnol bod asiantiaid gosod yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w ffioedd ar-lein ar wefannau trydydd parti.

97. Mae Adran 18 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Deddf 2015 i sicrhau y gellir gosod mwy nag un gosb ar yr un asiant gosod mewn perthynas â'r un achos o dorri dyletswydd o dan Bennod 3 o Ran 3 o Ddeddf 2015. Yn y Datganiad o Fwriad y Polisi dywedir y gall darpariaeth o'r fath fynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â'r ffaith y gallai asiantiaid gosod eiddo gyflawni troseddau niferus ac na ellir gosod cosb arall ar hyn o bryd.⁵⁸

⁵⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [63]

⁵⁷ Adran 8(3)(b) Y Bil Ffioedd Tenantiaid 2017-19 Bill HL 129 (fel y'i cyflwynwyd.)

⁵⁸ Datganiad o Fwriad y Polisi

98. Bydd y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 18 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y weithdrefn negyddol "yn briodol ar gyfer rheoliadau o ystyried natur y diwygiadau a gynigir".⁵⁹

99. Mae potensial yn y pŵer hwn i wneud rheoliadau i allu rhoi cosbau ariannol sylweddol ar asiantiaid gosod. Oherwydd hynny, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pam na fydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol: Meddai'r Gweinidog wrthym:

"(...) Welsh Ministers wouldn't have any discretion beyond whether and when to exercise those two powers. The way in which those powers would be exercised would already be agreed through the Bill through the Assembly, were it to be passed."⁶⁰

100. Ychwanegodd arweinydd polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil:

"(...) the Bill has sought to limit those powers so that they don't extend beyond what's absolutely necessary in order to achieve the policy objective. The different treatment of this particular section was as the Minister describes, because we have so very specifically set out on the face of the Bill what the restriction in use of that power is, so it was felt that this scrutiny process would leave little else to be scrutinised..."⁶¹

Ein barn ni

101. Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog ar y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 18 o'r Bil.

102. Rydym yn anghytuno â'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Gweinidog ac arweinydd polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil fod cyfyngiadau digonol ar wyneb y Bil a bod hyn yn golygu na fydd llawer ragor i graffu arno yn ystod y broses ddilynol o wneud rheoliadau. Nid yw'r Bil fel y'i drafftwyd yn rhoi unrhyw gyfyngiad ar y cosbau posibl y gellid eu gosod ar asiant gosod. Credwn hefyd fod yr esboniad a gynigiwyd yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch priodoldeb y weithdrefn negyddol yn wan.

⁵⁹ Memorandwm Esboniadol, Tabl 5.1

⁶⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [67]

⁶¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [68]

Argymhelliad 12. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 18 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

103. Ailadroddwn gasgliad y daethom iddo yn gynharach yn yr adroddiad hwn pan oeddem yn trafod yr ystyriaethau cymhwysedd deddfwriaethol a hawliau dynol. Credwn y bydd angen rhoi sylw arbennig i reoliadau a wneir o dan adran 18, mewn perthynas ag ystyriaethau hawliau dynol, os a phryd y gosodir y rheoliadau hynny gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 19 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â thenantiaethau sicr

104. Mae'r Bil wedi'i ysgrifennu ar y rhagdybiaeth y bydd Deddf 2016 wedi'i chychwyn yn llawn cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Oni fydd yr adrannau perthnasol o Ddeddf 2016 mewn grym pan gaiff y Bil hwn ei gychwyn, mae Adran 19 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol er mwyn i'r Bil fod yn gymwys i denantiaethau sicr fel y'u diffinnir yn *Neddf Tai 1988*.

105. Yn y Datganiad o Fwriad y Polisi dywedir mai'r camau a ffeirir gan Lywodraeth Cymru yw gweithredu Deddf 2016 cyn i'r Bil hwn ddod i rym, ac felly ni fyddai angen unrhyw reoliadau.

106. Bydd y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 19 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn.

107. Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro'r angen am y pŵer hwn i wneud rheoliadau. Dywedodd wrthym:

“(…) this is to ensure that the Bill is relevant under both systems and to make sure that any issues that there might be in terms of a delay to the implementation of the renting homes Act doesn't cause an issue for this piece of legislation. [...] were there to be a delay, it would be due to the issues that we're having with the courts systems.”⁶²

Ein barn ni

108. Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog ar y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 19 o'r Bil. Rydym yn cydnabod eglurhad y Gweinidog am yr angen am y pŵer hwn ac rydym yn fodlon â'r dull hwn o weithredu.

⁶² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 24 Medi 2018, Cofnod y Trafodion [70]

109. Rydym yn nodi bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 19 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac rydym yn fodlon â hyn.